Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-2024









GWEITHIO YMLAEN
CEFNOGI MENYWOD BEICHIOG A RHIENI NEWYDD YN Y GWAITH

Stonewall CYMRU
DIVERSITY CHAMPIONS
HYRWYDDWYR AMRYWIAETH

hyderus o ran anabledd
ARWEINYDD

Cynnwys

Rhagair 1
Cefndir 2
1.0 Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2
1.1 Deddf Cydraddoldeb 2010 2
1.2 Y Ddyletswydd Gyffredinol 2
1.3 Y Dyletswyddau Penodol yng Nghymru 2
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 3
2.0 Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd 3
2.1 Cyfeiriad Strategol 3
2.2 Ein Hamcanion Lles 4
Ein Hamcanion Cydraddoldeb 6
3.0 Datblygu ein Hamcanion 6
3.1 Ein Hamcanion Cydraddoldeb 7
3.2 Bodloni ein Hamcanion 8
3.3 Monitro Cynnydd 8
3.3.1 Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 9
3.3.2 Rhwydwaith Rhanddeiliaid Cydraddoldeb 10
3.3.3 Adrodd Blynyddol 10
Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol am Gydraddoldeb 10
Cyhoeddi Gwybodaeth Berthnasol am Gydraddoldeb 11
Ein Trefniadau ar gyfer Asesiadau o Effaith Cydraddoldeb (EqIA) 11
Hybu Gwybodaeth a Dealltwriaeth 12
7.1 Hyfforddiant Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 12
7.2 Adolygu ac Asesu Datblygiad Personol 12
7.3 Arweiniad a chymorth 12
7.4 Storïau Cleifion 12
Bwlch rhwng y Cyflogau ac Amcanion Cyflogau rhwng y Rhywiau 14
Cyhoeddi'r Cynllun a Rhoi Sylwadau arno 14
Atodiad 1 Ein Gweledigaeth 15
Atodiad 2 Datblygu Amcanion Cydraddoldeb yn BIPBC 16
Atodiad 3 Dull i Ddarparu Amcanion Cydraddoldeb 17
Atodiad 4 Ein Strategaeth a Map Cynllunio 18

Rhagair

Mae cydraddoldeb yn ganolog i waith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a'n gweledigaeth i wella iechyd, lles a gofal iechyd yng Ngogledd Cymru. Ar ran y Bwrdd yn BIPBC, rydym yn croesawu ymagwedd arbennig Llywodraeth Cymru i hybu a diogelu cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol yng Nghymru.

Mae'n hanfodol i ni gael trosolwg a dealltwriaeth glir o'r prif faterion y mae pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol yn eu hwynebu er mwyn llywio gwaith y Bwrdd Iechyd. Rydym wedi gwrando ac yn parhau i wrando a chlywed negeseuon allweddol ac yn gwerthfawrogi'r adborth yma. Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd a diogelu a hybu hawliau pawb i gyflawni gwell canlyniadau i bawb. Y canlyniadau sy'n bwysig ac fel y cyfryw, mae'n hanfodol bod hawliau'n cael eu rhoi ar waith mewn ffordd sy'n arwain at eu gweithredu'n ymarferol, fel y byddant yn cael effaith wirioneddol a chadarnhaol ar fywydau pobl Cymru.

Rydym yn croesawu'r Cynllun hwn sy'n darparu fframwaith er mwyn helpu i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried yn briodol yn ein sefydliad a'i fod yn dylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel ar draws BIPBC. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r holl weithgareddau a wneir gan ein Bwrdd Iechyd sy'n hybu ac yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau; ond mae fodd bynnag yn amlinelliad o'n pwyslais strategol allweddol. Rydym yn cydnabod bod y GIG yng Nghymru yn wynebu rhai o'i heriau mwyaf ers ei sefydlu, a thros gyfnod y Cynllun hwn, rhaid i ni addasu i anghenion iechyd cyfnewidiol ein poblogaeth.

Fel Bwrdd, byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein goblygiadau statudol i ddarparu'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn cael eu deall a'u cyflawni. Byddwn yn parhau i archwilio'r gwaith o weithredu'r Cynllun Strategol Cydraddoldeb hwn a gytunwyd gan y Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2020 a byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod ein sefydliad yn darparu gwasanaeth teg, ymatebol, cynhwysol a hygyrch i bawb, wrth i ni weithio at y nod o greu Cymru sy'n decach ac yn fwy cyfartal.
Ym Mis Ionawr 2020, cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Strategol Cydraddoldeb (SEP) diwygiedig a'r Amcanion ar gyfer y cyfnod rhwng 2020 a 2024. Yn dilyn hyn, mae Covid-19 wedi cynyddu'r anghydraddoldebau ar gyfer y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a grwpiau o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a bydd ein cynlluniau i ddarparu'r SEP yn adlewyrchu hyn.



Mark Polin OBE, QPM Cadeirydd



Simon Dean Prif Weithredwr Dros Dro



Sue Green Cyfarwyddwr Gweithredol Hyrwyddwr Gweithlu a Chydraddoldeb Datblygu'r Sefydliad



Jacqueline Hughes Aelod Annibynnol

Cefndir

1.0 Cynllun Strategol Cydraddoldeb

Fel corff a restrir yng Nghymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gofyn i ni lunio Cynllun Strategol Cydraddoldeb o leiaf bob pedair blynedd. Pwrpas y Cynllun Strategol Cydraddoldeb hwn yw disgrifio BIPBC a chofnodi'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd er mwyn cyflawni ei Ddyletswyddau Penodol o dan y Ddeddf. Trydydd Cynllun Strategol Cydraddoldeb y Bwrdd Iechyd yw hwn ac adroddir ar gynnydd bob blwyddyn ac mae modd ei gyrchu trwy: https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/adroddiadau-cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/

1.1 Deddf Cydraddoldeb 2010

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 â'r cyfreithiau gwrthwahaniaethu blaenorol at ei gilydd a'u disodli o dan un Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, sef y 'Ddyletswydd Gyffredinol'.

1.2 Y Ddyletswydd Gyffredinol

Nod y Ddyletswydd Gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rheiny sy'n cwblhau gweithredoedd cyhoeddus yn ystyried sut y gallwn fynd ati mewn ffordd gadarnhaol i gyfrannu at gymdeithas decach trwy wella cydraddoldeb a chysylltiadau da yn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae gofyn i gyrff cyhoeddus, fel y Bwrdd Iechyd, roi ystyriaeth briodol i'r angen i:

- ✓ waredu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf.
- ✓ hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.
- ✓ meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.

1.3 Y Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

Mae'r Dyletswyddau Penodol hefyd yn ymestyn at y rhan fwyaf o'r awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sydd o dan y Ddyletswydd Gyffredinol. Mae'r Dyletswyddau Penodol yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid i gyrff rhestredig yng Nghymru eu cymryd er mwyn dangos ein bod yn bodloni'r Ddyletswydd Gyffredinol. Mae BIPBC yn awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru ac fel y cyfryw, mae gofyn iddo ddatblygu amcanion cydraddoldeb ac i gyhoeddi Cynllun Strategol Cydraddoldeb. Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy: https://www.equalityhumanrights.com/cy/advice-and-guidance/canllawiau-i-ddyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-yng-nghymru

2.0 Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru. Rydym yn darparu ystod o wasanaethau cychwynnol, cymunedol, iechyd meddwl ac ysbytai llym i boblogaeth o ryw 678,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyllideb o £1.3 biliwn a gweithlu o oddeutu 18,000.

Mae gennym dri phrif ysbyty, Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam, ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a chanolfannau timau cymunedol. Rydym hefyd yn cydlynu gwaith practisau meddygon teulu a Gwasanaethau'r GIG sy'n cael eu darparu gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng Ngogledd Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy https://bipbc.gig.cymru/

2.1 Cyfeiriad Strategol

'Byw'n Iach, Aros yn Iach (LHSW)' yw ein strategaeth hirdymor sy'n disgrifio sut olwg a allai fod ar iechyd, lles a gofal iechyd yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol a sut rydym yn gweithio i'r cyfeiriad hwn. Rydym yn canolbwyntio ar wneud newidiadau mewn tri maes allweddol:

- Rydym am wella iechyd a lleihau anghydraddoldeb iechyd
- Rydym am i bobl dderbyn gofal yn nes at eu cartref
- Rydym am i bawb gael gofal ysbyty ardderchog


Mae llawer o ffactorau'n dylanwadu ar ein hiechyd a'n lles, heb sôn am lefelau tlodi ac anghydraddoldeb cynyddol trwy gydol cylch oes y Cynllun hwn. Serch hynny, ein huchelgais yw cau'r bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rheiny sy'n byw hiraf yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Gogledd Cymru a'r rhai sy'n byw yn ein hardaloedd mwyaf cyfoethog. Wrth wneud hynny, bydd angen i ni ddod yn fwy o wasanaeth "gwella iechyd" yn hytrach na gwasanaeth "salwch". Rydym yn gwneud hyn trwy ymgysylltu â'n poblogaeth, cleifion a staff a'n partneriaid statudol, annibynnol a gwirfoddol, ynghyd â gweithio gyda nhw, i gynllunio ar gyfer anghenion pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru ac i'n gweithlu ar gyfer y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy: https://www.pbccymrydrhan.co.uk/ein-cynlluniau

Byw'n Iach, Aros yn Iach
Mae LHSW, sef gweledigaeth hirdymor ein poblogaeth, yn adlewyrchu'r Ddyletswydd Gydraddoldeb ac mae wedi'i lywio gan Gynllun Strategol Cydraddoldeb (SEP) y Bwrdd Iechyd. Fel y cyfryw, mae 'hybu cydraddoldeb a hawliau dynol ym mhopeth a wnawn' yn egwyddor danategol allweddol ym mhob un o'n cynlluniau ac yn gyfrifoldeb ar y sefydliad cyfan.

Y Rhagolwg Tair Blynedd
Mae ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau a amlinellir yn Rhagolwg Tair Blynedd y Bwrdd Iechyd wedi'u nodi yn Atodiad 1. Ein pwrpas yw gwella iechyd poblogaeth Gogledd Cymru, sy'n golygu y bydd ansawdd a hyd bywyd gwell ar draws poblogaeth gyfan Gogledd Cymru, ymhen amser. Ein nod yw rhoi gofal ardderchog, sy'n golygu y byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu rhwydwaith o wasanaethau o ansawdd uchel, sy'n cynnig gofal diogel, trugarog ac effeithiol sydd o werth mawr i'n cleifion. Mae'r Rhagolwg Tair Blynedd yn esbonio cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried yn briodol a'i fod yn dylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel. Mae'n amlinellu'r gofynion ar gyfer asesu effaith cydraddoldeb fel proses i helpu i ganfod anghydraddoldeb posibl a mynd i'r afael ag ef gan arwain at well benderfyniadau cymhwysol a chanlyniadau a phrofiadau gwell i gleifion a staff.

2.2 Ein Hamcanion Lles

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi'r cyfle i ni feddwl yn wahanol ac i roi pwyslais newydd ar wella llesiant cenedlaethau; nawr ac yn y dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau, ceisio atal problemau a mabwysiadu ymagwedd sy'n fwy cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi saith nod llesiant yn eu lle, ac mae angen i ni wella ein cyfraniad at bob un o'r saith nod hyn gymaint â phosibl.



Mae angen i ni newid y ffordd rydym yn gweithio, gan sicrhau ein bod yn mabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaladwy a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - mae hyn yn golygu cymryd camau i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, gyda'r amcan o gyflawni'r saith nod. Mae pum ffordd o weithio y mae angen i ni eu hystyried wrth weithio i'r cyfeiriad hwn.



Rydym wedi ceisio adlewyrchu'r pum ffordd o weithio wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Strategol Cydraddoldeb. Un o'n dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw pennu amcanion llesiant ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r saith amcan llesiant canlynol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid:

- ✓ Gwella iechyd corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl a llesiant i bawb
- ✓ Targedu ein hadnoddau at y rhai sydd â'r anghenion mwyaf a lleihau anghydraddoldeb
- ✓ Cynorthwyo plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd
- ✓ Gweithio mewn partneriaeth i gynorthwyo pobl - unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau - er mwyn sicrhau eu llesiant eu hunain
- ✓ Gwella diogelwch ac ansawdd pob gwasanaeth
- ✓ Parchu pobl a'u hurddas
- ✓ Gwrando ar bobl a dysgu o'u profiadau

3.0 Datblygu ein Hamcanion

Mae'n hanfodol i ni gael trosolwg a dealltwriaeth glir o'r prif faterion y mae pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol yn eu hwynebu er mwyn llywio cyfeiriad strategol y Bwrdd Iechyd a ddisgrifir uchod. Rydym wedi casglu gwybodaeth berthnasol a ddelir gan BIPBC a'i dadansoddi ac rydym yn parhau i ymgysylltu â chymunedau, unigolion ac arbenigwyr er mwyn canfod yr hyn a allai fod wedi newid dros y pedair blynedd diwethaf er mwyn ein helpu i bennu amcanion. Un enghraifft o'r fath yw creu cysylltiadau â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a mabwysiadu egwyddorion edrych i'r tymor hir a gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus. Er y bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb sector cyhoeddus yn torri ar draws llawer o'r nodau llesiant, byddant yn gwneud y cynnydd mwyaf o ran:

- **Cymru iachach:** Cymdeithas lle caiff llesiant corfforol a meddyliol pobl eu gwella gymaint â phosibl a lle y deellir dewisiadau ac ymddygiad sy'n fuddiol i iechyd yn y dyfodol.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal:** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir cymdeithasol-economaidd a'u hamgylchiadau).
- **Cymru o gymunedau cydlynol:** Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel a chydgysylltiedig (gan gydnabod bob amser anghenion y rheiny sy'n cael eu heithrio, neu nad ydynt yn rhan o gymuned, o ddewis).

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb wedi cael eu datblygu ar sail ystyried holl waith a gweithgareddau'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cyflogaeth, darpariaeth gwasanaeth a datblygu polisi a chawsant eu llywio trwy gasglu gwybodaeth o dystiolaeth genedlaethol a lleol a'i dadansoddi, asesiadau effaith a thrwy ymgysylltu'n barhaus â staff a defnyddwyr gwasanaeth (Atodiad 2).

Rydym wedi adolygu ystod o adroddiadau cenedlaethol gan gyrff yn cynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) a Llywodraeth Cymru, ac rydym wedi cwblhau adolygiad o lenyddiaeth gyfredol ynghyd ag ystyried proffiliau cydraddoldeb poblogaeth Gogledd Cymru. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yn hyn yn rhoi gwybodaeth i ni am ystod eang o faterion sy'n effeithio ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Ymhlith rhai o'r ffynonellau cyffredinol o dystiolaeth gydraddoldeb a adolygwyd mae'r canlynol:

- EHRC A yw Cymru'n Decach? 2018 (EHRC, 2018)
- Ffyniant i Bawb: Strategaeth Genedlaethol (Llywodraeth Cymru 2017)
- Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb o ran y Rhywiau (Chwarae Teg, 2018)
- Adolygiad o Dystiolaeth o Anghydraddoldeb yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019)
- Llesiant Cymru 2017-18 (Llywodraeth Cymru, 2018)
- Papur Briffio Rhif 7096 Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Tlodi yn y DU: Ystadegau (Ebrill 2018)
- Institute for Fiscal Studies, Living standards, poverty and inequality in the UK: 2018 (Mehefin 2018)

- EHRC The cumulative impact of tax and welfare reforms. Country-specific appendix: Wales (2018).

Yn ogystal, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg (1993), a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan y Bwrdd Iechyd Cynllun Iaith Gymraeg cynhwysfawr ar waith, mae rhagor o wybodaeth ar gael o: https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/yr-iaith-gymraeg/

3.1 Ein Hamcanion Cydraddoldeb

Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn ymgorffori ymrwymiad y Bwrdd i fynd i'r afael â rhwystrau cydraddoldeb a chynhwysiant. Nid rhestr hollgynhwysfawr mo hon, ond mae'n amlinelliad o'n ffocws strategol allweddol. Rydym yn cydnabod bod y GIG yng Nghymru yn wynebu rhai o'i heriau mwyaf ers ei greu, ac wrth i ni roi ein hamcanion cydraddoldeb ar waith ar gyfer y dyfodol, rhaid i ni addasu i anghenion iechyd cyfnewidiol ein cymunedau. Mae rhagor o wybodaeth am bob amcan cydraddoldeb ar gael yn Atodiad 3.

- ✓ **Amcan Cydraddoldeb BIPBC 1**: Byddwn yn blaenoriaethu camau er mwyn helpu i ganfod effaith tlodi ac i'w lliniaru ar gyfer y sawl sy'n derbyn gofal iechyd sydd mewn perygl o fyw mewn aelwydydd incwm isel neu sy'n byw yn yr aelwydydd hynny yng Ngogledd Cymru.

- ✓ **Amcan Cydraddoldeb BIPBC 2**: Byddwn yn blaenoriaethu camau er mwyn lleihau anghydraddoldeb iechyd a gwella hygyrchedd gofal iechyd i bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yng Ngogledd Cymru.

- ✓ **Amcan Cydraddoldeb BIPBC 3**: Byddwn yn blaenoriaethu camau er mwyn ymateb i ddatblygiadau polisi allweddol a chyfreithiol ym maes gofal iechyd i bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig gwahanol yng Ngogledd Cymru.

- ✓ **Amcan Cydraddoldeb BIPBC 4**: Byddwn yn blaenoriaethu camau er mwyn hybu cydraddoldeb o ran y rhywiau yng Ngogledd Cymru.

- ✓ **Amcan Cydraddoldeb BIPBC 5**: Byddwn yn blaenoriaethu camau i fynd i'r afael â diogelwch personol ar gyfer pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig gwahanol sy'n manteisio ar wasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru.

- ✓ **Amcan Cydraddoldeb BIPBC 6:** Byddwn yn cynyddu ymgysylltu ag unigolion a grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig gwahanol yng Ngogledd Cymru.

- ✓ **Amcan Cydraddoldeb BIPBC 7**: Byddwn yn blaenoriaethu camau i wella cyfranogiad i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol o ran gwasanaethau iechyd ar draws Gogledd Cymru.

- ✓ **Amcan Cydraddoldeb BIPBC 8**: Byddwn yn blaenoriaethu camau i ddatblygu diwylliant cynhwysol lle bydd arweinwyr yn dangos eu hymrwymiad fel mater o drefn i hybu cydraddoldeb yn BIPBC a thu hwnt ac yn caniatáu gweithlu teg a chynhwysol.

- ✓ **Cydraddoldeb BIPBC Amcan 9:** Byddwn yn blaenoriaethu camau er mwyn hybu cydraddoldeb hiliol yng Ngogledd Cymru.

3.2 Bodloni ein Hamcanion

Fel y'i disgrifir, mae gweledigaeth hirdymor ein poblogaeth wedi'i halinio â Chynllun Strategol Cydraddoldeb (SEP) y Bwrdd Iechyd. Fel y cyfryw, mae 'hybu cydraddoldeb a hawliau dynol ym mhopeth a wnawn' yn egwyddor danategol allweddol ym mhob un o'n cynlluniau ac yn gyfrifoldeb ar y sefydliad cyfan. Mae ymrwymiad y Bwrdd i fynd i'r afael â rhwystrau cydraddoldeb a chynhwysiant wedi'i roi ar waith ar draws portffolios yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol, mae hyn yn sicrhau nad yw cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu rhannu'n adrannau ond eu bod yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i bawb. Mae angen i ni sicrhau bod cynlluniau'n cael eu datblygu o lefel clwstwr hyd at Cymuned Iechyd a hyd at lefel BIPBC fel bo modd ategu at gynllunio a darparu trwy Adolygiadau o Atebolrwydd yr Cymuned Iechyd. Mae ein strategaeth a'n map cynllunio wedi'u crynhoi yn Atodiad 4.

System Wella BIPBC

Fel rhan o'r strwythur sefydliadol a llywodraethu ar gyfer gwella, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu cyfres o Grwpiau Gwella. Mae pob Grŵp Gwella:

- Yn atebol i'r Grŵp Rheoli Portffolio dan arweiniad y Prif Weithredwr, sydd yn ei dro, yn adrodd wrth y Tîm Gweithredol.
- Yn cael ei arwain gan gyfarwyddwr gweithredol gyda gweithredwr arall fel is-gadeirydd er mwyn sicrhau dilyniant gweithredol.
- Yn cael ei gefnogi gan y Tîm Gwella a'r Swyddfa Reoli Cyflenwi.

Mae gan Grwpiau Gwella, wedi'u harolygu gan y Grŵp Rheoli Portffolio (PMG), rôl arweiniol o ran pennu bwriadau comisiynu. Bydd y bwriadau comisiynu'n ymgorffori mesurau perfformiad allweddol y Fframwaith Cyflenwi Cenedlaethol. Bydd y strwythur hwn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i adeiladu ar yr ymrwymiadau cydraddoldeb a amlinellir yn LHSW a'r Rhagolwg Tair Blynedd er mwyn sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol yn tanategu gweithgarwch gwella. Byddwn hefyd yn manteisio gymaint â phosibl ar gyfleoedd i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill trwy Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol, er mwyn gwella cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag anfantais gymdeithasol-economaidd, trwy weithio mewn partneriaeth.

Wrth i waith gael ei ddatblygu i gryfhau'r system wella, mae'n rhaid i raglenni a phrosiectau ddangos ystyriaeth briodol o ran y ddyletswydd gydraddoldeb. Mae prif ddyletswyddau a chylch gwaith yr holl Grwpiau Gwella'n cynnwys cyfrifoldebau i:

- Sicrhau bod y rhaglen yn ystyried anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.
- Sicrhau bod proses asesu effaith cydraddoldeb yn cael ei chymhwyso fel fframwaith er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw bosibilrwydd am anfantais neu wahaniaethu'n cael ei ganfod a'i unioni, ac yn bwysig bod cyfleoedd i wella cydraddoldeb neu i'w hybu yn cael eu pwysleisio gymaint â phosibl.

3.3 Monitro Cynnydd

Fframwaith Canlyniadau a Chyflenwi’r GIG

Mae Fframwaith Canlyniadau a Chyflenwi'r GIG yn un o dri fframwaith a gyhoeddir i helpu i lywio gwelliant parhaus yn iechyd a llesiant pobl Cymru, mae'r lleill yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd cyhoeddus. Mae'r Fframwaith yn manylu ar sut bydd GIG Cymru yn mesur perfformiad ac yn adrodd arno ym maes gofal iechyd. Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn torri ar draws pob un o'r meysydd:

- **Aros yn Iach**: Mae pobl yng Nghymru yn cael eu hysbysu a'u cefnogi'n dda i reoli eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl eu hunain.
- **Gofal diogel:** Caiff pobl yng Nghymru eu diogelu rhag niwed a'u cefnogi i ddiogelu eu hunain rhag niwed a wyddant amdano.
- **Gofal effeithiol:** Mae pobl yng Nghymru yn derbyn y gofal a'r cymorth cywir mor lleol â phosibl a chânt eu galluogi i gyfrannu at wneud y gofal hwnnw'n llwyddiannus.
- **Gofal urddasol:** Caiff pobl yng Nghymru eu trin gydag urddas a pharch a byddant yn trin eraill yn yr un ffordd.
- **Gofal amserol:** Caiff pobl yng Nghymru fynediad amserol at wasanaethau yn seiliedig ar ofynion clinigol a chânt eu cynnwys yn weithredol wrth wneud penderfyniadau am eu gofal.
- **Gofal Unigol:** Caiff pobl yng Nghymru eu trin fel unigolion sydd â'u hanghenion a'u cyfrifoldebau eu hunain.
- **Ein staff a'n hadnoddau:** Gall pobl yng Nghymru ddod o hyd i wybodaeth ynghylch sut mae eu GIG yn derbyn adnoddau ac yn eu defnyddio'n ofalus.

Mae cynnydd yn erbyn rhai o amcanion cydraddoldeb y Bwrdd Iechyd i'w gweld yn y mesurau a adroddir yn Fframwaith Cyflenwi GIG Cymru https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/fframwaith-cyflawni-a-chanllawiau-adrodd-gig-cymru-2019-2020-mawrth-2019.pdf Mewn rhai achosion, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi lle bo angen ymagwedd sy'n fwy ansoddol tuag at fesur darpariaeth gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Tystiolaeth o sut mae sefydliadau'r GIG yn ymateb i brofiad defnyddwyr gwasanaeth i wella gwasanaethau.
- Tystiolaeth o sut mae sefydliadau'r GIG yn gwella cydraddoldeb a chydberthnasau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.
- Adrodd ansoddol yn manylu ar gynnydd yn erbyn y pum safon sy'n caniatáu canfod a thargedu iechyd a llesiant grwpiau sy'n ddigartref ac sy'n agored i niwed.
- Adrodd ansoddol yn manylu ar gyflawniadau a wnaed o ran rhoi safonau Cymru gyfan ar waith o ran cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch i bobl sydd â nam ar y synhwyrau.

Mae prosesau ar waith, sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch cyflawni ei ymrwymiadau allweddol, caiff hyn ei hwyluso gan ystod o fforymau lle yr adroddir ar berfformiad a'i drafod gan arwain at gytuno ar gamau gwella priodol, yn ôl yr angen. Mae'r fforymau'n cynnwys cyfarfodydd atebolrwydd misol ac adolygiadau perfformiad chwarterol.

3.3.1 Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae'r Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn parhau i archwilio cynnydd a rhoi sicrwydd i Bwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd Poblogaeth y Bwrdd Iechyd.

3.3.2 Rhwydwaith Rhanddeiliaid Cydraddoldeb

Cynhelir archwiliad pellach gan Rwydwaith Rhanddeiliaid Cydraddoldeb allanol sy'n cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn, ac sy'n cynnwys unigolion a grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig ac eraill sydd wedi dweud eu bod yn fodlon cydweithio â ni ar hyn.

3.3.3 Adrodd Blynyddol

Mae'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol yn rhan o brosesau adrodd blynyddol cyhoeddus y Bwrdd Iechyd ac maent yn amlinellu ein darpariaeth gwasanaeth, ein perfformiad amgylcheddol ac ariannol ar gyfer y flwyddyn ac maent yn disgrifio ein trefniadau rheoli a llywodraethu. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhan o adran Adroddiad Atebolrwydd yr Adroddiad Blynyddol, ac mae'n rhoi adroddiad manwl ar ein trefniadau llywodraethu, rheoli risg a systemau rheoli mewnol. Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol, a gyhoeddir ar wahân, yn darparu gwybodaeth am ansawdd gofal ar draws ein gwasanaethau ac mae'n nodi'r gwelliannau a'r datblygiadau rydym wedi'u rhoi ar waith dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn gwella ansawdd y gofal a gynigiwn yn barhaus. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Bwrdd Iechyd yn https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/adroddiadau-blynyddol-a-chyfrifon/

Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn rhoi mwy o fanylion am gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran hybu cydraddoldeb ac mae'n cynnwys crynodeb o'r canlynol:

- Y camau rydym wedi eu cymryd i fodloni ein dyletswyddau cydraddoldeb a'r hyn rydym wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf i ddileu gwahaniaethu a hybu cyfle cyfartal a bodloni ein targedau.
- Canlyniadau casglu gwybodaeth, pa dystiolaeth sydd wedi dod i law a'r hyn y mae'n ei ddangos
- Beth mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud gyda'r wybodaeth a gasglwyd a pha gamau a gaiff eu cymryd o ganlyniad
- Beth yw barn ein rhanddeiliaid ar y cynnydd rydym wedi'i wneud

Caiff ein Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol eu cyhoeddi ar ein gwefan yn: https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/adroddiadau-cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/

Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol am Gydraddoldeb

4.0 Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol am Gydraddoldeb

Mae casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol yn hollbwysig er mwyn bodloni'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol. Mae'n sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd y dystiolaeth orau sydd ar gael er mwyn ein galluogi i bennu amcanion ystyrlon ac i gynnal asesiadau o effaith sydd wedi'u hysbysu'n llawn. Ar hyn o bryd, caiff gwybodaeth ei chasglu gan:

- Ymchwil cenedlaethol a lleol h.y. A yw Cymru'n decach 2018?
- Proffiliau poblogaeth ac asesiadau o anghenion
- Gwybodaeth am brofiad defnyddwyr gwasanaeth, adborth o arolygon boddhad cleifion a phryderon
- Gwybodaeth ansoddol o ymgysylltu â'r cyhoedd a grwpiau ffocws
- Gwybodaeth am fonitro'r gweithlu
- Adrodd am ddigwyddiadau

Yn ystod oes pedair blynedd y cynllun hwn, rydym wedi ymrwymo i gyfleoedd cwmpasu er mwyn atgyfnerthu casglu, monitro a dadansoddi data'n ymwneud â chanlyniadau iechyd a defnyddio gwasanaethau iechyd wedi'u gwahanu'n ôl nodweddion gwarchodedig a grwpiau sy'n agored i niwed.

Cyhoeddi Gwybodaeth Berthnasol am Gydraddoldeb

5.0 Cyhoeddi Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Caiff ein Cynllun Strategol Cydraddoldeb a'n Hamcanion Cydraddoldeb eu cyhoeddi ar ein gwefan yn:
https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/cynlluniau-strategol-cydraddoldeb/

Caiff ein Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol eu cyhoeddi ar ein gwefan yn:
https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/adroddiadau-cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/

Caiff ein hadroddiadau ar gyflogaeth a thâl eu cyhoeddi ar ein gwefan yn:
https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/adroddiadau-cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/

Ein Trefniadau ar gyfer Asesiadau o Effaith Cydraddoldeb (EqIA)

6.0 Ein Trefniadau ar gyfer Asesiadau o Effaith Cydraddoldeb (EqIA)

Un o flaenoriaethau'r sefydliad yw atgyfnerthu'r seilwaith cydraddoldeb a hawliau dynol ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth hon. Mae hyn yn golygu gweithio'n well er mwyn ymgorffori gofynion cydraddoldeb a hawliau dynol yn well, gan gynnwys Asesiadau o Effaith Cydraddoldeb, mewn systemau, cynlluniau a phrosesau er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn dod yn fater o arfer cyffredin.

Byddwn yn parhau i adeiladu dealltwriaeth a gallu ynghylch Asesu Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) fel proses strwythuredig, gadarn sydd â'r bwriad o sicrhau, cymaint â phosibl, pan fyddwn yn gwneud penderfyniad, yn datblygu polisi neu strategaeth neu'n gwneud unrhyw beth arall sy'n effeithio ar ddefnyddwyr ein gwasanaeth neu ein staff, ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd deg, atebol a chlir gan ystyried anghenion a hawliau'r rheiny a allai gael eu heffeithio.

Mae Asesu Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) yn ein galluogi i asesu'r effaith debygol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac mae hefyd yn helpu i ganfod cyfleoedd i hybu cydraddoldeb. Mae'n gyrru penderfyniadau cynhwysol gwell sy'n sensitif ac yn ymatebol i anghenion amrywiol pobl, gan arwain at ganlyniadau a phrofiadau gwell. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu hymgorffori a bod EqIA yn llywio'r rhaglenni gwella sy'n gwireddu strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd ar gyfer y dyfodol, sef 'Byw'n Iach, Aros yn Iach' wrth i ni gynllunio at roi'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ar waith. Mae craffu eisoes wedi'i atgyfnerthu ar lefel pwyllgor ac mae mecanwaith i gryfhau craffu ar EqIA yn tanategu gweithgarwch gwella fel rhan o'r system gwella diwygiedig yn cael ei sefydlu.

Hybu Gwybodaeth a Dealltwriaeth

7.0 Hybu Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Caiff ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ei hymgorffori i'n rhaglen gynefino ar gyfer yr holl aelodau newydd o staff, a chaiff ei phrif ffrydio trwy raglenni hyfforddiant arwain a rheoli. Rydym yn hybu ac yn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth mewn nifer o ffyrdd eraill gan gynnwys:

7.1 Hyfforddiant Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae Treat Me Fairly (TMF) yn adnodd e-ddysgu sydd wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer staff yn GIG Cymru. Rhaglen hyfforddiant gorfodol parhaus i'r holl staff yn BIPBC yw hon ac rydym yn cynnal lefelau uchel o ran cydymffurfiaeth. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran codi ymwybyddiaeth a helpu staff i ddeall sut mae'r dyletswyddau'n effeithio ar eu rolau unigol ac yn y sefydliad ehangach. Mae rhaglen o weithdai, sydd â'r bwriad o ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gynnal Asesiadau o Effaith Cydraddoldeb, ar waith hefyd.

7.2 Adolygu ac Asesu Datblygiad Personol

Mae'r holl staff yn cael Adolygiad Datblygiad ac Asesiad Personol (PADR), pan mae gofyn iddynt ddangos eu bod yn bodloni'r gallu sy'n briodol i'w swydd fel y'i diffinnir yn Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau'r GIG (KSF). Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn un o'r Galluoedd Craidd yn y KSF, ac mae'n helpu i sicrhau bod staff nid yn unig yn cael yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol, ond eu bod hefyd yn gallu dangos sut maent yn ei defnyddio yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

7.3 Arweiniad a chymorth

Mae ein safle mewnrwyd yn cynnig ffynhonnell ychwanegol o wybodaeth ac arweiniad i staff ac mae'n cyfeirio at adnoddau eraill gan gynnwys sefydliadau trydydd sector. Rydym yn hybu diwrnodau rhyngwladol ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth.

7.4 Storïau Cleifion

Rydym yn cofnodi ac yn rhannu storïau y bydd unigolion yn eu rhannu o'u safbwynt eu hunain mewn lleoliad gofal iechyd er mwyn rhoi cyfle i ni ddeall eu profiad o'r gofal maent wedi'i gael

gan ein helpu i ddysgu am y pethau da, y pethau drwg a'r hyn y gellid ei wneud i wella eu profiad.

Bwlch rhwng y Cyflogau ac Amcanion Cyflogau rhwng y Rhywiau

8.0 Bwlch rhwng y Cyflogau ac Amcanion Cyflogau rhwng y Rhywiau

Mae'r rhan fwyaf o weithlu'r Bwrdd Iechyd yn fenywod yn bennaf, mae hyn yn debyg i'r rhan fwyaf o sefydliadau yn y GIG. Er mai bwriad graddfeydd cyflog cenedlaethol, wedi'u hategu gan brosesau cyflog cychwynnol a dilyniant tâl, yw cynnal cyfiawnder a thegwch, rydym wedi canfod bwlch cyflogau rhwng y rhywiau ar draws y gweithlu. Rydym yn gweithio i ddeall y rhesymau dros hyn yn well. Mae nifer o themâu wedi dod i'r amlwg sydd wedi'u halinio â Strategaeth Gweithlu a Blaenoriaethau Allweddol BIPBC yn ymwneud â:

- Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Rhwydweithiau a Mecanweithiau Cymorth
- Hyfforddi a Datblygiad Sefydliadol
- Recriwtio, Cadw a Dilyniant Staff

Cyhoeddir ein hadroddiad am y bwlch rhwng y cyflogau, mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy: https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/adroddiadau-cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/

Yn ystod y cynllun pedair blynedd hwn, byddwn yn cymryd camau i ddatblygu ein cynllun gweithredu'n ymwneud â chyflogau'r rhywiau ac yn gweithio i ganfod bylchau cyflog ar sail ethnigrwydd ac anabledd, a mynd i'r afael â nhw.

Cyhoeddi'r Cynllun a Rhoi Sylwadau arno

9.0 Cyhoeddi'r Cynllun a Rhoi Sylwadau arno

Caiff y SEP diwygiedig ei gyhoeddi, mewn ystod o fformatau, ar ein gwefan a'i gylchredeg yn eang. Cysylltwch â BIPBC yn y cyfeiriad isod i gael mwy o gopïau o'r ddogfen neu i ofyn am gopi yn eich dewis iaith neu'r fformat a ddymunwch. Rydym yn cydnabod anghenion amrywiol y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac ieithoedd eraill.

9.1 Sylwadau neu bryderon

Os hoffech wneud sylw neu fynegi pryder am y Cynllun hwn, dylech ei gyfeirio at:

Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
Pencadlys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd
Bangor, Gwynedd LL57 2PW

9.2 Gall y Cynllun hwn fod ar gael mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais



Ffoniwch: Yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol

Ebostiwch bcuhbpressdesk@wales.nhs.uk

Ffôn: 01248 384776

Atodiad 1

<table>
<tr><td colspan="4">EIN GWELEDIGAETH
• Byddwn yn gwella iechyd y boblogaeth, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas
• Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu gwasanaeth iechyd integredig sy'n darparu gofal ardderchog a gyflawnir mewn partneriaeth â'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector eraill.
• Byddwn yn datblygu ein gweithlu fel bod ganddo'r sgiliau cywir a'i fod yn gweithredu mewn amgylchedd dysgu wedi'i drwytho mewn ymchwil</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gofal Gwella Iechyd
Anghydraddoldebau Iechyd</td><td>Yn Agosach at y Cartref</td><td>Gofal Ysbyty Arbennig</td></tr>
<tr><td>Ffordd o Fyw Iach
Ysmygu, pwysau iach, alcohol

Atal ac Amddiffyn
Iechyd y Geg, Gwneud Bob Cyswllt Gyfrif, Sgrinio

Cymunedau Gwydn, Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau
Rhagnodi cymdeithasol, Gogledd Cymru Iach, canolfannau iechyd a lles

Hyrwyddo lles meddwl
Plant, pobl ifanc a theuluoedd
Pobl sydd ag anabledd dysgu

Strategaeth Mamolaeth ar gyfer Cymru</td><td>Ataliad eilaidd ac ymyrraeth gynnar
Strôc, diabetes, orthopaedeg
Plant a Phobl Ifanc


Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd mewn cymunedau lleol
Timau Adnoddau Cymuned a chlystyrau
Model iechyd meddwl cymuned a gofal cychwynnol

Mynediad at ofal mewn argyfwng
Datblygu'r ganolfan gofal heb ei drefnu
Gwasanaeth 111, tîm adnoddau cymuned
Cefnog mewn argyfwng, plant, iechyd meddwl</td><td>Gofal Cynlluniedig Cynaladwy
Orthopaedeg, offthalmoleg, gastroenteroleg
Gofal meddygol a llawfeddygol llym
Gofal cleifion mewnol ac adsefydlu - anghenion iechyd meddwl

Amseroedd aros a mynediad

Gofal heb ei drefnu
Mynediad at adran achosion brys a llif cleifion
Helpwch fi fynd adref
Iechyd a gofal cymdeithasol integredig
Rhyddhau cynnar a gefnogir (strôc)</td><td>Gofal arbenigol a chymhleth
Wroleg, strôc, gwasanaeth fasgwlaidd, canser</td></tr>
<tr><td colspan="4">Gwella Ansawdd a Phrofiad Cleifion- "Beth sy'n bwysig"
Gofalwyr ac asedau cymuned — Cyd-gynhyrchu — Osgoi niwed, canolbwyntio ar ganlyniadau
Mynd i'r afael â chydraddoldeb a hawliau dynol, a hyrwyddo'r Gymraeg</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canolfannau Iechyd a Lles — Ystadau ac Isadeiledd Timau adnoddau integredig — Cyfleusterau ysbyty cynaladwy
Defnydd a rennir o asedau a phartneriaethau newydd, mentrau ar y cyd</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cysylltedd cymunedol — Gofal ac iechyd wedi'u galluogi'n ddigidol Systemau iechyd a gofal cymdeithasol integredig — Systemau ysbyty</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cefnogi rhwydweithiau cymuned — Gweithlu system cefnogi, gofal ac iechyd cyfan Gweithlu integredig ar draws sectorau — Modelau llym cynaladwy
Gweithio hyblyg</td></tr>
</table>

Datblygu Amcanion Cydraddoldeb ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr



Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb

Dull i Ddarparu'r Amcanion Cydraddoldeb

Dull i Gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb

Mae gweledigaeth hirdymor ein poblogaeth wedi'i halinio â Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Bwrdd Iechyd (SEP). Fel y cyfryw, mae 'hybu cydraddoldeb a hawliau dynol ym mhopeth a wnawn' yn egwyddor danategol allweddol ym mhob un o'n cynlluniau ac mae'n gyfrifoldeb ar y sefydliad cyfan. Mae ymrwymiad y Bwrdd i fynd i'r afael â rhwystrau at gydraddoldeb a chynhwysiant wedi'i roi ar waith ar draws portffolios yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol, mae hyn yn sicrhau nad yw cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu rhannu'n adrannau ond eu bod yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i bawb.

Cyflawni ein hamcanion

Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn torri ar draws holl feysydd Fframwaith Canlyniadau a Chyflenwi'r GIG. Bydd y Grwpiau Gwella, fel rhan o'u rôl i bennu bwriadu comisiynu i gyflawni mesurau perfformiad allweddol y Fframwaith Cyflenwi Cenedlaethol, yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i adeiladu ar yr ymrwymiadau cydraddoldeb a amlinellir yn 'Byw'n Iach, Aros yn Iach' ac yn sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol yn tanategu gweithgarwch gwella. Byddwn hefyd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn gwella cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol, trwy weithio mewn partneriaeth. I wireddu'r gwaith hwn, mae angen i ni sicrhau bod cynlluniau'n cael eu creu a'u bod yn gweithredu o gyd-destun cydraddoldeb a hawliau o lefel clwstwr at Economi Iechyd a hyd at lefel BIPBC gan ategu at gynllunio a chyflenwi trwy lens cydraddoldeb a hawliau trwy Adolygiadau o Atebolrwydd yr Economi Iechyd.

Mae cynllun gweithredu ar gyfer parhad y Cynllun Strategol Cydraddoldeb yn cael ei ddatblygu i sicrhau darpariaeth y Strategaeth newydd yn y dirwedd gofal iechyd newydd o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Rydym wedi adolygu ein hamcanion ac wedi ail-gadarnhau ein hymrwymiad bod yn rhaid i hawliau dynol a chydraddoldeb fod yn ganolog i feddwl a chynllunio'r bwrdd iechyd yn ogystal â llywio'n hymateb i Covid-19.

Eleni rydym yn:

- Parhau i integreiddio ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol i systemau, prosesau a rhaglenni craidd y bwrdd iechyd
- Adolygu'r dystiolaeth sy'n ymddangos a chryfhau ein hymgysylltiad parhaus gyda phobl o grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig i ddeall profiad byw ac effaith Covid-19 yn well

- Adeiladu capasiti a chryfhau llywodraethu a chraffu ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- Paratoi ar gyfer dechrau'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu gweithredoedd i ddarparu amcanion SEP ar gyfer 2021/22

Atodiad 4

Ein Strategaeth a'n Map Cynllunio

<table>
<tr><td colspan="6">Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol / Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</td></tr>
<tr><td colspan="6">Strategaeth BIPBC - Byw'n Iach, Aros yn Iach

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldeb</td><td colspan="2">Gofal yn Nes at y Cartref</td><td colspan="2">Gofal Ysbyty Llym</td></tr>
<tr><td colspan="6">Strategaethau Galluogi (* yn dynodi strategaeth galluogi allweddol)</td></tr>
<tr><td>Strategaeth Gwasanaethau *</td><td>Gweithlu *</td><td>Iechyd Digidol *</td><td>Ystadau *</td><td>Gofalwyr</td><td></td></tr>
<tr><td>Y Gymraeg</td><td>Cyllid / adfer *</td><td>Ansawdd a Diogelwch *</td><td>Ymchwil a Datblygiad ac Arloesi</td><td>Strategaeth Iechyd Meddwl</td><td>Strategaeth Anableddau Dysgu</td></tr>
<tr><td colspan="6">Grwpiau Gwella - Yn adrodd wrth Grŵp Rheoli'r Portffolio</td></tr>
<tr><td>Grŵp Gwella Iechyd</td><td>Grŵp Gwella Gofal yn Nes at y Cartref</td><td>Grŵp Gwella Law yn Llaw at Iechyd Meddwl</td><td>Grŵp Gwella Gofal wedi'i Gynllunio</td><td>Is-Grŵp Gofal heb ei Drefnu</td><td>Grŵp Gwella Digidol</td></tr>
<tr><td>Grŵp Gwella Ystadau</td><td>Grŵp Gwella'r Gweithlu</td><td>Grŵp Gwella Ansawdd</td><td>Grŵp Gwella Caffael</td><td>Grŵp Gwella Rheoli Meddyginiaethau</td><td>Grŵp Gwella Gofal Iechyd Parhaus</td></tr>
<tr><td colspan="6">Cynlluniau Cyflenwi Cymuned Iechyd y Dwyrain, y Canol a'r Gorllewin</td></tr>
<tr><td colspan="6">Cynlluniau Clwstwr Tanategol / Darpariaeth Gwasanaeth</td></tr>
</table>